

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 13/2022

PUBLICATION DATE: 09/02/2022



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 y DU: adroddiad proffil Cymru 2022 (Tonnau 40-42)

ISBN Digidol **978-1-80391-631-6**

© Hawlfraint y Goron

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth y DU COVID-19: Adroddiad proffil Cymru 2022 (Tonnau 40-42) Chwefror 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2022.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-tracio-defnyddwyr-twristiaeth-covid-19-proffil-cymru-4-tachwedd-2021-i-10-ionawr-2022>

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru
Grŵp Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: tourismresearch@gov.wales



Cyflwyniad



Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg wythnosol COVID-19 i dracio barn defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon sy'n ymwneud â theithio ar hyn o bryd a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn rhoi sylw i: tebygolrwydd preswylwyr o'r DU yn teithio; pryd a ble y maent yn bwriadu mynd; manylion penodol trip fel mathau o lety a gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn chwilio amdano o'r sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl o 1,500 o oedolion 16+ oed cynrychioliadol genedlaethol yn y DU, gyda hwb i breswylwyr yr Alban a Chymru i ddarparu samplau wythnosol cadarn. Ailadroddwyd yr arolwg yn wythnosol neu'n bythefnosol gyda'r wythnos gyntaf yn dechrau ar 18 Mai 2020.

Seilir y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn bennaf ar ddata o Donnau 40-42. Mae hyn yn seiliedig ar waith maes a ddigwyddodd yn ystod y dyddiadau canlynol:

- **Ton 40: 4ydd i'r 10fed Tachwedd**
- **Ton 41: 1af i'r 7fed Rhagfyr**
- **Ton 42: 4ydd i'r 10fed Ionawr**

Mewn nifer o leoedd, a lle mae meintiau sylfaen yn caniatáu, mae'r data'n seiliedig ar lai o donnau – mae hyn i adlewyrchu'r teimladau a'r bwriadau cyhoeddus diweddaraf.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Defnyddir y diffiniadau isod i ddiffinio bwriadau trip dros nos. Mewn rhai achosion rhennir pob diffiniad yn ôl y bwriad i fynd ar drip dros nos yng Nghymru a'r bwriad i wneud hynny yn y DU.

- **Bwriadwyr y Gaeaf/Gwanwyn:** Aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2022. Mae "y Gaeaf" yn cyfeirio at mis Ionawr i fis Mawrth, mae "Gwanwyn" yn cyfeirio at mis Ebrill i fis Mehefin.
- **Bwriadwyr yr Haf:** Aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022.

Trwy gydol yr adroddiad rydym yn defnyddio nifer o ddiffiniadau. Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio fesul cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant ar yr aelwyd
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant ar yr aelwyd
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant ar yr aelwyd
- **Oedran ymddeol:** 65+ oed.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn hwyluso'r dadansoddi defnyddir y diffiniadau llety canlynol:

- **Gwesty/Motél/Tafarndy**
- **Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy**
- **Llety Hunanddarpar masnachol:** Fflat/Gwesty fflatiau gwyliau rhent neu gartref gwyliau rhent
- **Cartref preifat:** Ail gartref/cyfran gyfnodol neu gartref ffrind/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar sail fasnachol (e.e. Airbnb)
- **Carafán/Gwersylla/Glampio:** Carafán Deithiol neu Gerbyd Gwersylla/Cartref Modur neu Garafán Sefydlog neu Babell neu Glampio/Amgen
- **Llety arall:** Hostel neu fath arall o lety

Canfyddiadau allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Teimladau cyffredinol a bwriadau hamdden

1. O ddechrau mis Ionawr, mae cyhoedd y DU yr un mor debygol o feddwl bod y 'gwaethaf wedi mynd heibio' â'r 'gwaethaf eto i ddod' mewn perthynas â COVID-19. Er bod hyn yn cynrychioli sefyllfa fwy pesimistaidd na'r rhan fwyaf o 2021, mae ychydig yn fwy cadarnhaol na mis yn gynharach ym mis Rhagfyr, ac yn sylweddol fwy cadarnhaol nag ym mis Ionawr 2021 – y cyfnod gwaith maes cyfatebol y llynedd.
2. Yn yr un modd, mae 'lefelau cyfforddusrwydd' gyda gweithgareddau 'nodweddiadol' fel 'mynd am dro mewn parc gwledig' neu 'bwyta mewn bwyty' yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ac nid yw'n ymddangos eu bod wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan yr amrywiad Omicron.
3. Wedi dweud hynny mae'r feirws yn parhau i effeithio ar fwriadau hamdden, gyda chyfrannau sylweddol o'r cyhoedd yng Nghymru a'r DU yn osgoi gweithgareddau y byddent fel arfer yn eu gwneud. Er enghraifft, mae 18% o breswylwyr o Gymru yn dweud y byddent fel arfer yn ymweld â bwyty dan do yn ystod y 12 mis nesaf, ond yn osgoi gwneud hynny oherwydd COVID-19, gyda'r un gyfran hefyd yn nodi hyn ar gyfer ymweliadau â'r 'sinema/theatrau' a 'gwyliau, arddangosfeydd mewn gofod mawr'. Bydd 12% hefyd yn osgoi 'amgueddfeydd/treftadaeth dan do' am y rheswm hwn. O ran gweithgareddau, mae lleiafrif sylweddol yn osgoi 'nofio dan do' a 'sba/triniaethau iechyd'.
4. Yn gyson ag adroddiadau blaenorol yn y gyfres hon, mae cyfnodau bywyd 'hŷn' fel 'ymddeolwyr' ac 'annibynwyr hŷn' yn dangos y lefelau cyfforddusrwydd isaf gyda gweithgaredd hamdden cyffredinol, a dyma'r rhai sydd fwyaf tebygol o osgoi gweithgareddau y byddent yn eu gwneud fel arfer. 'Cyn-nythwyr' a theuluoedd yw'r rhai sydd fwyaf cyfforddus o hyd.
5. Efallai'n gysylltiedig â phryderon parhaus ynghylch y feirws, mae cyhoedd y DU a Chymru yn dyfynnu ystod o amodau fel rhai hanfodol i ddarparwyr twristiaeth a hamdden dan do gael yn eu lle iddynt ymweld â nhw yn yr ychydig fisoedd nesaf. 'Canslo am ddim' yw'r prif ofyniad, gyda gwisgo masgiau (ar gyfer staff a chwsmeriaid) yn agos iawn wedi hynny. Mae trefniadau glanhau gwell a digonedd o hylif diheintio dwylo hefyd yn parhau i fod yn bwysig. Yn nodedig efallai, mae preswylwyr o Gymru yn fwy tebygol na phreswylwyr o'r DU o fod angen 'pasbortau COVID-19 gorfodol ar gyfer staff a chwsmeriaid', er mai dim ond tua thraean sy'n barnu bod hyn yn hanfodol ac nid yw'r bwlch yn sylweddol.

Canfyddiadau allweddol (2)

Bwriadau tripiâu sydd ar ddod (ymwelwyr dros nos)

1. Gan adlewyrchu lefelau uwch o hyder a chyfforddusrwydd, mae preswylwyr o'r DU ac o Gymru yn rhagweld y byddant yn cymryd llawer mwy o dripiâu dros nos yn ystod y 12 mis nesaf nag yn y 12 mis blaenorol. Er y bydd y cynnydd disgwyliedig mewn tripiâu domestig yn cael ei yrru'n rhannol gan gyfyngiadau'r cyfnod clo a fydd yn cymryd tua thri mis o 2021, mae hefyd yn gysylltiedig â lefelau hyder uwch o ran mynd ar dripiâu. Mae preswylwyr o Gymru a'r DU yn sylweddol fwy hyderus y byddai tripiâu yn y DU yn mynd rhagddynt ar gyfer pob mis o'r flwyddyn o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2021, er bod y gyfran sy'n hyderus ar hyn o bryd yn llai na'r hanner ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror – gan godi'n gynyddol drwy'r flwyddyn. Y prif rwystrau canfyddedig rhag mynd ar drip yn y DU yw 'cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth', 'cyllid personol' a 'phryderon ynghylch dal COVID-19', gyda 'thywydd y DU' hefyd yn ffactor rhwng mis Ionawr a mis Mehefin.
2. Mae hyder cymharol gryf y byddai tripiâu'n mynd rhagddynt yn golygu, o gymharu â 2021, bod cyfran uwch o breswylwyr o'r DU yn rhagweld trip dros nos yn y Gaeaf (mis Ionawr i fis Mawrth), y Gwanwyn (mis Ebrill i fis Mehefin) a'r Haf (mis Gorffennaf i fis Medi) – er enghraifft, mae 37% yn rhagweld trip haf yn y DU yn 2022, o gymharu â 27% yn rhagweld un yn 2021.
3. Mae rhai arwyddion, fodd bynnag, fod bwriad tripiâu tramor ar gynnydd. Mae preswylwyr o'r DU yn rhagweld y byddant yn cymryd ychydig mwy o dripiâu tramor yn y 12 mis nesaf nag yn y 12 mis blaenorol, mae 61% o fwriadwyr i'r DU *hefyd* yn rhagweld trip tramor ac mae hyder y byddai tripiâu tramor yn mynd yn eu blaenau yn uwch na'r hyder mewn tripiâu yn y DU yn yr un cyfnod blwyddyn diwethaf. Efallai'n nodedig fodd bynnag, nad yw'r mwyafrif o fwriadwyr yn y DU yn bwriadu cynllunio trip dramor yn yr un cyfnod â'u trip yn y DU, sy'n awgrymu y gallent gymryd y ddau fath o drip, yn hytrach nag un neu'r llall.
4. Yn unol â lefelau cyfforddusrwydd cyffredinol, mae 'teuluoedd' a graddau cymdeithasol uwch yn fwy tebygol o gymryd tripiâu dros nos yn y DU a thripiâu tramor – yr olaf yn arbennig. Mae mynegai ymddeolwyr ychydig yn is na'r boblogaeth o ran tripiâu yn y DU – cyferbyniad â 2021 a 2020 lle'r oeddent yn sylweddol is.
5. Mis Gorffennaf i fis Medi yw'r adeg o'r flwyddyn sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu tripiâu domestig dros nos i bob math o gyrchfan, yn enwedig i 'dref arfordirol/glan môr traddodiadol' y rhagwelir y bydd yn creu dwywaith cymaint o ddiddordeb ag unrhyw gyfnod amser arall.

Canfyddiadau allweddol (3)

Tripiau i Gymru – proffilio ac ymddygiad

1. Yn gyson â thuedd ers dechrau'r ymchwil hwn, De-orllewin Lloegr yw'r rhanbarth mwyaf poblogaidd yn y DU ar gyfer gwyliau byr dros nos neu wyliau ar draws y Gaeaf/Gwanwyn a'r Haf. Cymru yw'r 8fed gyrchfan a ffeirir fwyaf ar gyfer trip dros nos yn y Gaeaf/Gwanwyn (er bod diddordeb yn codi i ran olaf y cyfnod hwn), a'r 3ydd safle a ffeirir fwyaf yn yr haf.
2. Cymru yw prif gyrchfan preswylwyr o Gymru o hyd, er bod mwyafrif y bwriadwyr yn dod o fannau eraill yn y DU. Fel cyfran o'r holl fwriadwyr o fewn eu rhanbarth, Gogledd Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr sy'n cynhyrchu'r diddordeb mwyaf mewn trip dros nos i Gymru, er bod diddordeb yn uchel ymhlith bwriadwyr o Lundain a De-ddwyrain Lloegr yn yr haf.
3. Teuluoedd sydd yn mynd i fod y cyfnod bywyd a gynrychiolir fwyaf ymhlith y rhai sy'n cymryd tripiau yng Nghymru yn y Gaeaf/Gwanwyn a'r Haf, gan fynegeoio uwchlaw'r boblogaeth gyffredinol ond yn gyson â bwriadwyr ehangach y DU. Yn nodedig, mae 'ymddeolwyr' hefyd yn mynegeoio'n uwch na'r boblogaeth ar gyfer tripiau Gaeaf/Gwanwyn i Gymru, gan nodi gwriad o 2021 pan oedd i'r gwrthwyneb.
4. Mae'n ymddangos bod Cymru'n denu ymwelwyr domestig sy'n fwy 'cost-ymwybodol' na gweddill y DU. Mae bwriadwyr i Gymru yn fwy tebygol o berthyn i raddau cymdeithasol is ac o gael eu heffeithio'n ariannol gan y pandemig. Mae lefelau cyffordduswydd bwriadwyr wrth gynnal gweithgareddau yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, tanlinellir hyder tymor byr isel y byddai trip yn mynd yn ei flaen gan y mwyafrif o'r bwriadwyr nad ydynt wedi archebu eu trip Gaeaf/Gwanwyn i Gymru eto, a thuedd i archebu'n agosach at y dyddiad nag arfer.
5. Yn gyson â 2021, Eryri yw prif gyrchfan trip dros nos yng Nghymru ar draws y ddau gyfnod amser, ac yna Llandudno a Bae Colwyn a Sir Benfro. Mae Caerdydd yn llawer mwy ffafriol yn yr haf, ac ar y blaen i fwriadau yn y cyfnod cyfatebol yn 2021, efallai wedi'i ysgogi gan gynnydd mewn cyffordduswydd yn ymweld â 'chanol dinas fawr'.
6. Mae'r math o gyrchfan a ffeirir gan fwriadwyr i Gymru yn cyferbynnu â bwriadwyr i'r DU – mae bwriadwyr i Gymru yn llawer mwy tebygol o ragweld aros mewn 'mynyddoedd neu fryniau' ac yn llai tebygol o aros mewn 'dinas neu dref fawr' dros y Gaeaf/Gwanwyn a'r Haf. Mae 'tref glan môr traddodiadol' a 'chefn gwlad neu bentref' yn denu cyfrannau tebyg o fwriadwyr.
7. Mae bwriadwyr i Gymru yn sylweddol fwy tebygol o fod yn cynllunio trip hirach o 4+ noson nag yn 2021, na bwriadwyr i'r DU, efallai'n adlewyrchu'r hyder uwch a adroddwyd.
8. Mae bron i hanner bwriadwyr y Gaeaf/Gwanwyn i Gymru yn bwriadu aros mewn 'maes carafanau/gwersylla' ar eu trip dros nos nesaf, sy'n uwch na bwriadwyr i'r DU ac yn sylweddol uwch na 'llety hunanddarpar masnachol', y math nesaf o lety a ffeirir fwyaf. 'Carafán/gwersylla' hefyd yw'r dewis llety mwyaf poblogaidd ar gyfer bwriadwyr yr Haf i Gymru, eto o flaen bwriadwyr i'r DU, ond ychydig yn unig sy'n ffafrio hyn i 'gartref preifat', ac yn is nag yn 2021.

Canfyddiadau allweddol (4)

9. Ymhlith bwriadwyr y Gaeaf/Gwanwyn a'r Haf i Gymru, 'partner' yw'r aelod mwyaf cyffredin o'r parti i fynd gyda nhw ar drip, ac yna 'plentyn, wyres neu oedolion ifanc â rhieni', gyda'r olaf yn ystod cyfnod yr haf yn arbennig. Yn nodedig, mae 1 o bob 6 o fwriadwyr y Gaeaf/Gwanwyn i Gymru yn bwriadu dod ag 'anifeiliaid anwes' gyda nhw, sydd yn gyson â 2021.

Tripiâu a gymerwyd ers mis Ebrill 2021

1. Aeth 53% o breswylwyr o'r DU a 46% o breswylwyr o Gymru ar drip dros nos i'r DU ers mis Ebrill 2021 (pan godwyd y rhan fwyaf o gyfyngiadau clo). Ym misoedd yr haf (Gorffennaf i Medi) y bu'r nifer fwyaf o dripiâu yn y DU, sef 33% o breswylwyr o'r DU, sy'n uwch na'r gyfran a ragwelodd drip ar ddechrau'r flwyddyn. Mae 21% o breswylwyr o'r DU wedi mynd ar drip tramor ers mis Ebrill 2021, a 15% o breswylwyr o Gymru.
2. Yn nodedig, mae'r bwlch rhwng tripiâu yn y DU a thripiâu tramor a gymerwyd yn 2021 yn fwy na'r bwlch bwriadau trip tramor/yn y DU yn 2022, sy'n awgrymu ymhellach y gallai bwriad tripiâu tramor fod ar gynnydd.
3. Yn yr un modd â *bwriad* tripiâu i Gymru, mae teuluoedd hefyd yn mynegeo'n uwch na'r boblogaeth gyffredinol ar gyfer tripiâu yn y DU a thramor a gymerwyd ers mis Ebrill 2021, yn enwedig ar gyfer tripiâu tramor. Ar gyfer tripiâu yn y DU, mae pob cyfnod bywyd arall yn mynegeo'n is na'u canlyniadau yn y boblogaeth, er yn wahanol i fwriadau ar ddechrau 2021, nid oes unrhyw gyfnod bywyd yn sefyll allan yn hyn o beth. Yn nodedig, fodd bynnag, mae ymddeolwyr bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi mynd ar drip dros nos yn y DU na thrip tramor. Mae graddau cymdeithasol uwch hefyd yn mynegeo uwchlaw'r boblogaeth ar gyfer tripiâu yn y DU a thramor, yn enwedig yr olaf.
4. Yn gyson â bwriadau tripiâu ar ddechrau 2021, De-orllewin Lloegr oedd cyrchfan y DU a oedd yn fwyaf tebygol o gynhyrchu trip dros nos ers mis Ebrill 2021. Ymhlith preswylwyr o Gymru, Cymru oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd, gyda 2 o bob 5 yn mynd ar drip yno.
5. Teuluoedd yw'r gyfran uchaf o bobl sy'n mynd ar drip i Gymru ers mis Ebrill, gan fynegeo uwchlaw'r boblogaeth gyffredinol.
6. Mae mynegai ymgymerwyr tripiâu i Gymru yn uwch na'r boblogaeth a chymerwyr tripiâu yn y DU o ran 'annibynwyr hŷn' a graddau cymdeithasol C1C2. Yn yr un modd â bwriadau tripiâu, mae mynegai ymgymerwyr tripiâu i Gymru yn is nag ymgymerwyr tripiâu yn y DU ar gyfer graddau cymdeithasol AB.

Canfyddiadau allweddol (5)

Teithio at ddibenion busnes

1. Dim ond 16% o oedolion y DU sydd mewn cyflogaeth sy'n bwriadu mynd ar drip busnes dros nos yn y tri mis nesaf, gan ostwng ychydig i 12% o breswylwyr o Gymru. 'Adeiladu tîm' yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros drip dros nos – a ddewisir gan dros draean (34%).

Bwriadau tripliau undydd

1. Mae preswylwyr o Gymru yn fwy tebygol na phreswylwyr o bob rhan o'r DU o fod yn cynllunio trip undydd i bob math o gyrchfan erbyn mis Mehefin eleni. 'Cefn gwlad neu bentref' yw'r prif ddewis cyrchfan, er – yn gyson â bwriadau cyrchfan dros nos – 'mynyddoedd neu fryniau' sy'n dangos y bwlg mwyaf rhwng preswylwyr o'r DU a Chymru.
2. Mae cyfnod bywyd ymgymrwyr tripliau undydd yn amrywio yn dibynnu ar y math o gyrchfan, cyfnodau bywyd hŷn yn fwy cyffredin ymhlith 'ymgymerwyr tripliau undydd arfordir gwledig' a chyfnodau bywyd iau yn fwy amlwg mewn 'dinasoedd mawr' a 'dinasoedd neu drefi llai'.

Teimlad cyffredinol a bwriadau hamdden




Canfyddiadau'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19

- Ers mis Awst 2021, mae cyfran yr oedolion yn y DU sy'n meddwl bod 'y gwaethaf wedi mynd heibio' mewn perthynas â COVID-19 wedi bod yn debyg i'r gyfran sy'n meddwl 'mae'r gwaethaf eto i ddod' (33% ar hyn o bryd a 28% yn y drefn honno). Er gwaethaf tracio'n agos at deimladau'r DU ar gyfer y rhan fwyaf o'r pandemig, ers mis Medi mae preswylwyr o Gymru'n adrodd bod 'pigynau' cryfach o ganfyddiadau negyddol, yn enwedig ym mis Rhagfyr 2021 pan oedd cyfyngiadau yn llymach nag yn Lloegr. Wedi dweud hynny, gyda 28% yn meddwl 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio' a 30% yn meddwl 'mae'r gwaethaf eto i ddod', mae canfyddiadau preswylwyr o Gymru ar hyn o bryd yn debyg i breswylwyr o'r DU.
- Yn gadarnhaol, mae canfyddiadau ymhlith preswylwyr o Gymru a phreswylwyr o'r DU yn sylweddol fwy cadarnhaol nag ym mis Ionawr 2021.

Ffigur 1. Canfyddiad o'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19, Tonnau 1-42, y DU a Chymru.

— Mae'r gwaethaf eto i ddod (preswylwyr y DU) — Mae'r gwaethaf wedi mynd heibio (preswylwyr y DU)
- - - Mae'r gwaethaf eto i ddod (preswylwyr Cymru) - - - Mae'r gwaethaf wedi mynd heibio (preswylwyr Cymru)




C7: O ran sefyllfa Coronafeirws yn y DU a'r ffordd y bydd yn newid yn ystod y mis i ddod, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch barn orau? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n=c.1,750. Holl ymatebwyr Cymru n=c.200



Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau gyda 'chyfforddusrwydd cymedrol'

- Mae preswylwyr o Gymru yn adrodd cyfartaledd cyfforddusrwydd ychydig yn is na phreswylwyr o'r DU, sy'n gyson ar draws y mwyafrif o weithgareddau unigol – yn arbennig 'teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus', lle mae'r bwlch yn 5 pwynt canran.
- Mae lefelau cyfforddusrwydd yn sylweddol uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2021.

Ffigur 2. Lefel cyfforddusrwydd o ran cynnal gweithgareddau, Net cyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fydddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 1,755; Holl ymatebwyr Cymru n = 212

Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau gyda ‘chyfforddusrwydd cymedrol’

- Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, mae bod yn gyfforddus yn cynnal gweithgareddau unigol yn tueddu i fod yn uwch ymhlith cyfnodau bywyd iau – ‘cyn-nythwyr’ sy’n nodi’r cyfartaledd cyfforddusrwydd uchaf, ac yna ‘teuluoedd’, ‘annibynwyr hŷn’ ac ‘ymddeolwyr’. Mae’r gwahaniaethau hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer ‘ymweld ag atyniad ymwelwyr dan do’ lle mae’r bwlch cyfforddusrwydd rhwng ‘cyn-nythwyr’ ac ‘ymddeolwyr’ yn 20 pwynt canran ac ‘ymweld â chanol dinas brysur’ gyda bwlch o 16 pwynt canran.
- Yn gadarnhaol, mae pob cam bywyd yn nodi lefelau cyfforddusrwydd sylweddol uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2021.

Ffigur 3. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau yn ôl cyfnod bywyd, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Canran, Tonnau 42, y DU.




VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fydech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf? Sylfaen: Cyn-nythwyr n = 322; Teuluoedd n = 633; Annibynwyr Hŷn n = 437; Pobl sydd wedi ymddeol n = 363

Bwriad yn y dyfodol i ymweld â lleoliadau hamdden

- O'r lleoedd a brofwyd, preswylwyr o Gymru sydd fwyaf tebygol o fwriadu ymweld â 'thraeth neu daith gerdded/llwybr arfordirol' yn ystod y mis nesaf, ac yna 'bwyty – gyda seddi awyr agored'.
- Yn nodedig, mae preswylwyr o Gymru yn fwyaf tebygol o fod yn osgoi 'bwytai gyda seddi dan do' a 'sinemâu/theatrau' oherwydd COVID-19.

Ffigur 4. Bwriad i ymweld â lleoliadau hamdden, Canran, Ton 42, y DU a Chymru

■ Byth □ Yn gwneud hynny fel arfer yn y 12 mis nesaf ond yn ei osgoi oherwydd COVID-19 ■ Yn gwneud hynny yn y 12 mis nesaf (ac eithrio'r mis nesaf) ■ Yn gwneud hynny y mis nesaf




VB9a. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n debygol o ymweld â nhw yn ystod y 12 mis nesaf? VB9b. Pa rai, os o gwbl, ydych chi'n debygol o ymweld â nhw yn y DU yn ystod y mis nesaf? VB9c. Pa rai, os o gwbl, fydddech chi'n ymweld â nhw fel arfer yn ystod y 12 mis nesaf, ond byddwch chi'n eu hosgoi oherwydd rhesymau'n ymwneud â COVID-19 (e.e. cyfyngiadau'r llywodraeth, y risg o ddal COVID-19 ac ati)? Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n=1,755; Pob ymatebydd Cymru n=212se.

Bwriad yn y dyfodol i ymweld â lleoliadau hamdden

- Mae cyfran nodedig o breswylwyr o Gymru hefyd yn datgan y byddent fel arfer yn mynd i 'wyliau/arddangosfeydd mewn gofod mawr' (18%) ac 'mewn man caeedig' (12%) yn y 12 mis nesaf ond yn eu hosgoi oherwydd COVID-19. Mae tua 1 o bob 10 hefyd yn osgoi 'canolfannau chwarae neu weithgareddau dan do' a 'chlybiau nos'.

Ffigur 5. Bwriad i ymweld â lleoliadau hamdden, Canran, Ton 42, y DU a Chymru

■ Byth □ Yn gwneud hynny fel arfer yn y 12 mis nesaf ond yn ei osgoi oherwydd COVID-19 ■ Yn gwneud hynny yn y 12 mis nesaf (ac eithrio'r mis nesaf) ■ Yn gwneud hynny y mis nesaf




VB9a. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n debygol o ymweld â nhw yn ystod y 12 mis nesaf? VB9b. Pa rai, os o gwbl, ydych chi'n debygol o ymweld â nhw yn y DU yn ystod y mis nesaf? VB9c. Pa rai, os o gwbl, fydddech chi'n ymweld â nhw fel arfer yn ystod y 12 mis nesaf, ond byddwch chi'n eu hosgoi oherwydd rhesymau'n ymwneud â COVID-19 (e.e. cyfyngiadau'r llywodraeth, y risg o ddal COVID-19 ac ati)? Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n=1,755; Pob ymatebydd Cymru n=212se.



Bwriad yn y dyfodol i gynnal gweithgareddau hamdden

- O ran gweithgareddau, preswylwyr o Gymru sydd fwyaf tebygol o fynd i ‘gerdded/heicio’ yn y mis nesaf, gyda 2 o bob 5 (39%) yn bwriadu gwneud hynny – sy’n sylweddol uwch na’r holl weithgareddau eraill a fesurwyd. Yn debyg i breswylwyr o’r DU, maent yn fwyaf tebygol o fod yn osgoi ‘sba/triniaethau iechyd’ (13%) a ‘nofio dan do’ (11%) oherwydd COVID-19.

Ffigur 6. Bwriad i gynnal gweithgareddau hamdden, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




VB10a. Pa rai, os o gwbl, o’r mathau hyn o weithgareddau ydych chi’n debygol o’u gwneud yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf? VB10b. Pa rai, os o gwbl, ydych chi’n debygol o’u gwneud yn y DU yn ystod y mis nesaf? VB10c. Pa rai, os o gwbl, fydddech chi’n eu gwneud fel arfer yn ystod y 12 mis nesaf, ond y byddwch chi’n eu hosgoi oherwydd rhesymau’n ymwneud â COVID-19 (e.e. cyfyngiadau’r llywodraeth, y risg o ddal COVID-19 ac ati)? Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n=1,755; Pob ymatebydd Cymru n=212

Bwriad yn y dyfodol i gynnal gweithgareddau hamdden

- Dim ond lleiafrif bach o breswylwyr o'r DU a Chymru sy'n bwriadu cynnal gweithgareddau hamdden eraill yn y 12 mis nesaf

Ffigur 7. Bwriad i gynnal gweithgareddau hamdden, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




VB10a. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o weithgareddau ydych chi'n debygol o'u gwneud yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf? VB10b. Pa rai, os o gwbl, ydych chi'n debygol o'u gwneud yn y DU yn ystod y mis nesaf? VB10c. Pa rai, os o gwbl, fydddech chi'n eu gwneud fel arfer yn ystod y 12 mis nesaf, ond y byddwch chi'n eu hosgoi oherwydd rhesymau'n ymwneud â COVID-19 (e.e. cyfyngiadau'r llywodraeth, y risg o ddal COVID-19 ac ati)? Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n=1,755; Pob ymatebydd Cymru n=212

Amodau hanfodol i ddarparwyr twristiaeth/hamdden gael yn eu lle

- ‘Canslo am ddim’ yw’r amod y mae preswylwyr o’r DU a Chymru yn ei ystyried yn hanfodol er mwyn i ddarparwyr twristiaeth/hamdden dan do gael yn eu lle, er mwyn iddynt allu ymweld yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae ystod eang o amodau eraill hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig, gan gynnwys staff a chwsmeriaid yn gwisgo masgiau wyneb, ‘trefniadau glanhau gwell’ a ‘digon o hylif diheintio dwylo’. Yn nodedig, mae preswylwyr sydd wedi’u lleoli yng Nghymru yn fwy tebygol o weld ‘pasbortau COVID-19 gorfodol’ a ‘chadw pellter cymdeithasol gorfodol’ fel amodau hanfodol.

Ffigur 8. Yr amodau sy’n hanfodol i ddarparwyr twristiaeth a hamdden dan do gael yn eu lle i ymweld â nhw yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, Canran, Ton 42, y DU a Chymru, Y 10 uchaf ymhlith preswylwyr o Gymru



C63. Pa rai, os o gwbl, o’r amodau a ganlyn fyddai’n hanfodol i ddarparwyr twristiaeth a hamdden dan do (e.e. atyniadau ymwelwyr dan do, bwytai, gwestai ac ati) gael yn eu lle i chi ymweld â nhw/eu defnyddio dros y misoedd nesaf? Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n=1,755; Pob ymatebydd Cymru n=212


**Bwriadau trip dros
nos sydd ar ddod**




Nifer y tripiâu dros nos a ragwelir yn y DU a thramor

- Mae preswylwyr o'r DU a Chymru yn rhagweld y byddant yn cymryd mwy o dripiâu dros nos yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf nag a gymerasant yn y 12 mis blaenorol, gyda thua thraean yn rhagweld y byddant yn cymryd mwy o gymharu â thua 1 o bob 8 yn disgwyl cymryd llai. Mae preswylwyr o'r DU hefyd yn rhagweld y byddant yn mynd ar fwy o dripiâu tramor, er mai ychydig yn unig yw hyn. Mae preswylwyr o Gymru yn rhagweld y byddant yn cymryd llai o dripiâu tramor yn y 12 mis nesaf. Nid yw cyfran uchel o breswylwyr o'r DU a Chymru yn gwybod faint o dripiâu domestig ac yn enwedig dripiâu tramor y byddant yn eu cymryd, gan amlygu amodau marchnad ansicr.

Ffigur 9. Nifer y tripiâu dros nos yn y DU sy'n debygol o gael eu cymryd yn y 12 mis nesaf o gymharu â'r 12 mis diwethaf, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




Ffigur 10. Nifer y tripiâu dros nos TRAMOR sy'n debygol o gael eu cymryd yn y 12 mis nesaf o gymharu â'r 12 mis diwethaf, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




Gwariant ariannol a ragwelir ar dripiâu dros nos yn y DU a thramor

- Yn unol â nifer y tripiâu y maent yn rhagweld y byddant yn eu cymryd, mae preswylwyr o'r DU yn disgwyl gwario mwy ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf, o gymharu â'r 12 mis diwethaf, a rhagwelir cynnydd ymylol ar gyfer tripiâu tramor.
- I breswylwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, mae'r un nifer yn rhagweld y byddant yn gwario llai ar dripiâu yn y DU na'r llynedd ag y byddant yn gwario mwy – er gwaethaf y disgwyliad o gymryd mwy o dripiâu gwirioneddol – gyda gostyngiad yn y gwariant a ragwelir ar dripiâu tramor.

Ffigur 11. Gwariant ariannol a ragwelir ar wyliau yn y DU a gwyliau byr yn y 12 mis nesaf o'i gymharu â'r 12 mis diwethaf, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




Ffigur 12. Gwariant ariannol a ragwelir ar wyliau a gwyliau byr TRAMOR yn y 12 mis nesaf o'i gymharu â'r 12 mis diwethaf, Canran, Ton 42, y DU a Chymru



Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Mae hyder preswylwyr o'r DU y byddai gwyliau neu wyliau byr wedi'u harchebu yn y DU yn mynd yn eu blaen fel y cynlluniwyd yn 48% ar gyfer tripiâu mis Ionawr a 47% ar gyfer tripiâu mis Chwefror. Mae hyder yn codi o fis Mawrth ymlaen, ac yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r hyder y byddai tripiâu tramor yn mynd yn eu blaenau. Mae preswylwyr o Gymru yr un mor hyderus â phreswylwyr o'r DU. O gymharu â 2021, mae hyder y byddai trip i'r DU yn mynd yn ei flaen yn sylweddol uwch ar gyfer pob mis – er enghraifft, yn gynnar yn 2021 roedd hyder y byddai trip ym mis Gorffennaf 2021 yn mynd yn ei flaen yn 42% ar gyfer preswylwyr o'r DU, o gymharu â 73% yn hyderus ar hyn o bryd y byddai trip mis Gorffennaf 2022 yn mynd yn ei flaen.

Ffigur 13. Hyder mewn cymryd trip dros nos yn y DU a thramor ar draws gwahanol gyfnodau amser, NET Hyderus (Hyderus iawn + gweddol hyderus) Canran, Ton 42, y DU




Rhwystrau canfyddedig i gymryd gwyliau a gwyliau byr dros nos yn y DU

- ‘Cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth’, ‘cyllid personol’ a ‘phryderon ynghylch dal COVID-19’ yw’r prif rwystrau canfyddedig i breswylwyr o’r DU rhag mynd ar drip dros nos yn y DU rhwng mis Ionawr a mis Mehefin, gyda ‘thywydd y DU’ yn dilyn yn agos wedi hynny.
- Mae’r rhwystrau rhag mynd ar dripiâu haf yn debyg i’r Gaeaf/Gwanwyn, ac eithrio ‘tywydd y DU’ sydd yn is i lawr y rhestr, ond mae costau cynyddol gwyliau yn dod yn fwy amlwg.
- Yn gyffredinol, mae preswylwyr o Gymru yn cyfleu rhwystrau tebyg i breswylwyr o’r DU rhwng mis Ionawr a mis Mehefin, ond maent yn llai tebygol o nodi ‘cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth’ yn yr haf.

Ffigur 14. Rhwystrau i fynd ar drip dros nos i’r DU yn ystod Gaeaf/Gwanwyn 2022, Canran, Tonnau 41 i 42, y DU a Chymru, y 10 Uchaf



Ffigur 15. Rhwystrau i fynd ar drip dros nos i’r DU yn ystod yr Haf 2022, Canran, Tonnau 41 i 42, y DU a Chymru, y 10 Uchaf



VB7b. Pa rai, os o gwbl, o’r ffactorau canlynol ydych chi’n eu hystyried yn rhwystrau posibl i chi gymryd gwyliau byr yn y DU neu wyliau yn <>?

Sylfaen: Gwaith maes mis Rhagfyr a mis Ionawr i hybu meintiau sylfaen. Ffigur 11. preswylwyr o’r DU n=2,917; Preswylwyr o Gymru n=359.


Ffigur 12. Preswylwyr o’r DU n=1,751; Preswylwyr o Gymru n=221.




Bwriad trip dros nos yn y DU a thramor

- Mae bron i 3 o bob 5 (58%) o breswylwyr o'r DU yn rhagweld y byddant yn cymryd trip dros nos yn y DU yn 2022, sy'n sylweddol uwch na'r 2 o bob 5 (40%) sy'n rhagweld y byddant yn mynd ar drip tramor yn 2022. Disgwylir i'r nifer uchaf o dripiâu fod yn yr haf, gyda bron i 2 o bob 5 (37%) o breswylwyr o'r DU yn cynllunio trip dros nos bryd hynny. O wythnos gyntaf mis Ionawr (Ton 42), mae preswylwyr o Gymru gryn dipyn yn llai tebygol o fod yn rhagweld trip dros nos yn y DU na phreswylwyr o'r DU, ond yr un mor debygol o fod yn cynllunio trip tramor.
- O gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2021, mae cyfran sylweddol uwch o breswylwyr o'r DU a Chymru yn rhagweld trip domestig dros nos ar gyfer pob cyfnod – er enghraifft, roedd 37% yn rhagweld trip haf i'r DU yn 2022, o gymharu â 27% yn rhagweld un yn 2021. Gyda dim ond 11% o breswylwyr o'r DU yn mynd ar drip tramor dros yr haf yn 2021, mae yna awgrym y gallai teithio tramor gynyddu eleni.

Ffigur 16. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw dripiâu dros nos yn y DU, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




Ffigur 17. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw drip dros nos TRAMOR Canran, Ton 42, y DU a Chymru



Mynychder bwriad tripiâu yn y DU a thramor

- Mae tua 3 o bob 5 (61%) o'r cyhoedd yn y DU sy'n bwriadu mynd ar drip dros nos yn y DU yn 2022 hefyd yn cynllunio trip tramor yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae tripiâu tramor ac yn y DU yn bennaf yn debygol o ddigwydd mewn tymhorau gwahanol, y nifer uchaf o achosion cynllunio cyhoeddus yn y DU ar 38% (ym mis Gorffennaf a mis Medi).

Ffigur 18. Dadansoddiad o fwriadwyr tripiâu i'r DU o'i gymharu â bwriadwyr tripiâu i'r DU/tramor, Canran, Ton 42, y DU




VB2a. Gan feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf i'r DU/tramor rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn?

Sylfaen: bwriadwyr i'r DU Mis Ionawr i fis Rhagfyr n=983; bwriadwyr i'r DU Mis Ionawr i fis Fawrth n=217; bwriadwyr i'r DU Mis Ebrill i fis Mehefin n=423; Bwriadwyr yr Haf i'r DU n=647


Bwriad trip dros nos yn y DU a thramor

- Preswylwyr o'r DU o'r cyfnod bywyd 'teulu' sydd fwyaf tebygol o fod yn bwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn 2022, gyda 72% yn disgwyl gwneud hynny. Nhw hefyd yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o fod yn bwriadu mynd ar drip tramor yn y cyfnod hwn.
- Ymddeolwyr sydd leiaf tebygol o fod yn cynllunio trip dros nos naill ai yn y DU neu dramor.
- Yn nodedig, mae pob cam bywyd yn fwy tebygol o fod yn cynllunio tripiâu dros nos i'r DU ym mhob cyfnod, o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2021.

Ffigur 19. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw drip dros nos yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 42, y DU



Ffigur 20. Canran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw dripiâu TRAMOR yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 42, y DU



VB2a. Gan feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf i'r DU/tramor rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn?


Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. Cyn-nythwyr n=322; Teuluoedd n=633; Annibynwyr Hŷn n=437; Nythwyr Gwag n=363




Bwriad trip dros nos yn y DU a thramor

- Yn unol â bwriadau tripliau, teuluoedd yw'r gyfran uchaf o fwriadwyr ar draws pob cyfnod amser, ar gyfer gwyliau a gwyliau byr i'r DU a thramor, yn enwedig ar gyfer tripliau tramor. Mae gan ymddeolwyr gynrychiolaeth is na'r boblogaeth gyffredinol, fel sydd gan 'annibynwyr hŷn' ond maent yn dal i wneud cyfanswm o 2 o bob 5 o fwriadwyr tripliau yn y DU.

Ffigur 21. Dadansoddiad o'r boblogaeth ac ymgymerwyr tripliau yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 42, y DU a Chymru



Ffigur 22. Dadansoddiad o'r boblogaeth ac ymgymerwyr tripliau TRAMOR yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 42, y DU a Chymru




VB2a. Gan feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf i'r DU/tramor rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn?

Sylfaen: bwriadwyr i'r DU Mis Ionawr i fis Rhagfyr n=983; bwriadwyr i'r DU Mis Ionawr i fis Mawrth n=217; bwriadwyr i'r DU Mis Ebrill i fis Mehefin n=423; bwriadwyr i'r DU yn ystod yr Haf n=647


Bwriad trip dros nos yn y DU a thramor

- Mae preswylwyr o'r DU o radd gymdeithasol uchel yn fwy tebygol o fod yn bwriadu mynd ar drip domestig dros nos na graddau cymdeithasol is, yn enwedig DE. Mae pob gradd gymdeithasol yn fwy tebygol o gymryd tripiâu yn y DU na thripiâu tramor yn 2022, er bod y bwlch lleiaf ar gyfer graddau cymdeithasol AB.

Ffigur 23. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw dripiâu dros nos yn y DU yn ôl gradd gymdeithasol, Canran, Ton 42, y DU



Ffigur 24. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw dripiâu dros nos TRAMOR yn ôl gradd gymdeithasol, Canran, Ton 42, y DU



VB2a. Gan feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf i'r DU/tramor rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn?


Sylfaen: gradd gymdeithasol AB n=488, gradd gymdeithasol C1C2 n=623; gradd gymdeithasol DE n=644




Bwriad trip dros nos yn y DU a thramor

- Ymhlith bwriadwyr tripiâu yn y DU, mae gan raddau cymdeithasol AB a C1C2 gynrychiolaeth uwch na'r boblogaeth gyffredinol, gyda graddau cymdeithasol DE yn is.
- Mae graddau cymdeithasol AB â thebygolrwydd llawer uwch o fod yn bwriadu mynd ar drip tramor ac mae graddau cymdeithasol DE yn llai tebygol o wneud hynny.

Ffigur 25. Dadansoddiad o'r boblogaeth ac ymgymerwyr tripiâu yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 42, y DU



Ffigur 26. Dadansoddiad o'r boblogaeth ac ymgymerwyr tripiâu TRAMOR yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 42, y DU




VB2a. Gan feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf i'r DU/tramor rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn?

Sylfaen: bwriadwyr i'r DU Mis Ionawr i fis Rhagfyr n=983; bwriadwyr i'r DU Mis Ionawr i fis Mawrth n=217; bwriadwyr i'r DU Mis Ebrill i fis Mehefin n=423; bwriadwyr i'r DU yn ystod yr Haf n=647

Math o gyrchfan y bwriedir mynd iddi ar gyfer tripiâu dros nos yn y DU

